***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2710

# Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010

**Estyn y cyfnod penodedig**

**6.** Os caniateir i unrhyw berson gyflawni'r gwaith a bennir yn rheoliad 7 am gyfnod penodedig yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau Atodlen 2, bydd y cyfnod hwnnw yn cael ei estyn drwy ychwanegu ato gyfnod sy'n hafal i agregiad o unrhyw gyfnod neu gyfnodau pan fydd y person dan sylw'n absennol o'r gwaith—

(a) wrth i'r person hwnnw arfer—

(i) ei hawl i absenoldeb mamolaeth a roddir gan adran 71 neu 73 o Ddeddf 1996(**1**) neu gan gontract cyflogaeth a phan fydd gan y person hwnnw yr hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn rhinwedd y naill neu'r llall o'r adrannau hyn neu gontract cyflogaeth;

(ii) ei hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o Ddeddf 1996;

(iii) ei hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A, 80AA, 80B neu 80BB o Ddeddf 1996(**2**); neu

(iv) ei hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o Ddeddf 1996(**3**); neu

(b) oherwydd beichiogrwydd.

(**1**) Diwygiwyd adran 71 gan baragraff 31, ac adran 73 gan baragraff 32, o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p.18) a diwygiwyd y ddwy adran gan adran 17 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p.22).

(**2**) Mewnosodwyd adrannau 80A ac 80B gan adran 1 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 p.22, ac adrannau 80AA ac 80BB (nad ydynt, ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, wedi eu cychwyn) gan adrannau 3 a 4 yn y drefn honno o Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18.

(**3**) Mewnosodwyd adrannau 75A a 75B gan adran 3 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 p.22. Diwygiwyd adran 75A gan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18. Diwygiwyd adran 75B gan baragraff 34 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18.